

Eitem: 15

Teitl: Adolygiad o Reolau Sefydlog Llais

Gweithredu / Action required	Ar gyfer ystyried a chymeradwyo
Amseru / Timing	Arferol
Argymhelliad / Recommendation	Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r adolygiad a gynhaliwyd o Reolau Sefydlog Llais a chefnogi'r newidiadau arfaethedig, yn dilyn ystyriaeth a chymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.
Risg / Risk	Os na fydd Llais yn adolygu ei Reolau Sefydlog yn rheolaidd fel rhan o'i drefniadau llywodraethu ehangach, bydd risg y bydd y sefydliad yn gweithredu heb y trefniadau mwyaf cyfredol o ran ei rolau a'i gyfrifoldebau a'r ffyrdd cytunedig o weithio. Gallai hyn arwain at risg y bydd Llais yn gweithredu neu'n gwneud penderfyniadau nad ydynt yn bodloni'r gofynion statudol perthnasol.
Cyllid / Finance	Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, gallai penderfyniadau sy'n ymwneud â'r Rheolau Sefydlog gael goblygiadau ariannol a llywodraethu i'r sefydliad os nad yw'r trefniadau hyn ar waith ac yn cael eu dilyn o fewn Llais.
Amcan cynllun blynyddol / Annual plan objective Amcan cynllun strategol/ Strategic plan objective	Mae'r gwaith hwn yn ymwneud yn benodol â maes blaenoriaeth 5, sef tyfu a gwella fel sefydliad a bod yn sefydliad dibynadwy sy'n cael ei werthfawrogi gan bawb. Mae trefniadau llywodraethu da yn galluogi Llais i weithredu'n llwyddiannus a chyflawni pob agwedd ar ei waith, ac felly i gyflawni ei holl brif amcanion.
Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant / Equity, Diversity & Inclusion	Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol i'r adroddiad hwn yn y maes asesu hwn.
Cyfathrebu / Communications	Ticiwch y blychau perthnasol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar: Mewnol: ein pobl ☒

	Allanol: ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒ Allanol: enw da'r sefydliad ☒
Cymeradwyaeth / Approval/Clearance	Prif Weithredwr
Trafodaethau/ Penderfyniadau Blaenorol / Previous discussions/decisions	Mae Llais eisoes wedi cytuno ar Reolau Sefydlog. Mae'r rhain wedi cael eu hadolygu'n barhaus. Cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o'r ystod o ddogfennau llywodraethu yn 2024, a chymeradwywyd yr adolygiad hwn gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2024, a chytunwyd ar gyfnod adolygu o ddwy flynedd. Cynhaliwyd adolygiad cydymffurfiaeth hefyd yn 2025, a chyflwynwyd adroddiad arno i'r Bwrdd.
Awdur/ Cyflwyno / Author/presenting	Richard Bevan, Cyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd
Dyddiad / Date	7 Hydref 2026
Cefndir / Background	
Cyflwyniad: Pwysigrwydd adolygu dogfennau llywodraethu allweddol Mae'r Rheolau Sefydlog yn diffinio sut y gwneir penderfyniadau, sut y rheolir rhai adnoddau ariannol a sut y cynhelir atebolrwydd ar draws y sefydliad. Mae'r Rheolau Sefydlog yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ein gweithrediadau'n gyfreithlon, yn dryloyw ac yn cyd-fynd â safonau arfer gorau. Mae adolygu'r Rheolau Sefydlog yn rheolaidd yn hanfodol am sawl rheswm: • Cydymffurfiaeth a sicrwydd: Rhaid iddynt adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol, canllawiau Llywodraeth Cymru a gofynion llywodraethu GIG Cymru. • Rheoli risg: Gall darpariaethau sydd wedi dyddio neu sy'n aneglur arwain at fethiannau llywodraethu, anghysondebau ariannol neu risg i enw da'r sefydliad. • Effeithiolrwydd sefydliadol: Wrth i Llais barhau i ddatblygu, rhaid i'n fframwaith llywodraethu addasu i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau effeithlon, sicrhau cyfrifoldeb clir ac adlewyrchu unrhyw newidiadau i strwythurau rheoli'r sefydliad. • Hyder y cyhoedd: Mae trefniadau llywodraethu cadarn a chyfredol yn sail i hyder yn ein gallu i weithredu gydag uniondeb ac atebolrwydd.	

Mae'r adroddiad hwn yn ceisio rhoi sicrwydd i'r Bwrdd fod ein Rheolau Sefydlog yn addas at y diben ac yn parhau i arwain a diogelu'r gwaith o gyflawni dyletswyddau statudol ac amcanion strategol ein sefydliad.

Manylion / Detail

Adolygiad o'r Rheolau Sefydlog

Diweddarwyd ein Rheolau Sefydlog yn 2024 a chawsant eu cymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2024, gyda chyfnod adolygu o ddwy flynedd. Cynhaliwyd adolygiad cydymffurfiaeth hefyd yn 2025. Mae'n bryd adolygu ein Rheolau Sefydlog unwaith eto a chynhelir y gwaith hwn gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd, a thrafodwyd y canfyddiadau gyda'r Tîm Gweithredol. Ystyriodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y diwygiadau a'r newidiadau arfaethedig ar 23 Medi a'u cefnogi. Argymhellir y newidiadau hyn i'r Bwrdd i'w cymeradwyo.

Dangosodd yr adolygiad cydymffurfiaeth blaenorol yn 2025 fod y sefydliad yn cydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog ac, mewn rhai meysydd, yn rhagori ar y gofynion.

Mae'r tabl canlynol yn rhoi trosolwg o'r diweddariadau a'r newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog ac mae'n tynnu sylw'n benodol at y meysydd lle mae angen diweddarau'r geiriad yn dilyn newidiadau i strwythur y sefydliad a threfniadau'r pwyllgorau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Ym mhob maes arall o'r Rheolau Sefydlog, aseswyd eu bod yn parhau'n berthnasol ac yn briodol.

Darpariaeth y rheolau sefydlog	Sefyllfa/diweddariad/diwygiad
Tudalen 5 – yn yr adran ddiffiniadau, cyfeirir at Dîm Noddi Llywodraeth Cymru.	Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi newid enw'r tîm hwn i'r Tîm Partneriaeth.
Tudalen 5 adran 1.4 a 1.5 Newid teitl Ysgrifennydd y Bwrdd	Cynigir defnyddio teitl llawn y rôl, sef Cyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd, yn y fan hon (gan nodi bod y teitl Ysgrifennydd y Bwrdd yn cael ei ddefnyddio mewn mannau eraill yn y ddogfen).
Tudalen 6 – yn yr adran ddiffiniadau ac ar draws y ddogfen defnyddir y teitl Ysgrifennydd y Bwrdd. Mae teitl y rôl bellach wedi newid i Gyfarwyddwr	At ddibenion y Rheolau Sefydlog, fel y nodwyd uchod, argymhellir cadw'r teitl Ysgrifennydd y Bwrdd, gan mai hwn yw'r teitl sy'n cyfateb i rôl prif ymgynghorydd llywodraethu'r Bwrdd. Ceir nifer o

Corfforaethol Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd	enghreiffiau o'r teitl hwn yn cael ei ddefnyddio ar draws sawl tudalen o'r ddogfen, ac mae adran benodol ar rôl Ysgrifennydd y Bwrdd ar ddiwedd y ddogfen. Yn yr adran hon, bydd y teitl llawn yn cael ei nodi eto, ond defnyddir y teitl Ysgrifennydd y Bwrdd yn unig drwy weddill y ddogfen.
Tudalen 6 – diffiniad o Aelod o'r Bwrdd.	Ar hyn o bryd, dim ond at aelodau anweithredol a'r Prif Weithredwr y mae'r diffiniad yn cyfeirio. Argymhellir cynnwys Aelodau Cyswllt hefyd, er eu bod eisoes yn cael eu crybwyll yn ddiweddarach yn yr adran ddiffiniadau. Argymhellir hefyd nodi y gall fod unigolion ychwanegol yn bresennol mewn cyfarfodydd y Bwrdd o bryd i'w gilydd, megis cynrychiolwyr o'r rhaglen Darpar Aelodau'r Bwrdd (unigolyn sy'n bresennol yn swyddogol, ond heb hawliau pleidleisio).
Tudalen 7 – diffiniad o Brif Weithredwr	Argymhellir ychwanegu cyfeiriad at rôl y Swyddog Cyfrifyddu fan hyn. Er bod diffiniad penodol o'r rôl hon yn ymddangos yn ddiweddarach. Byddai ychwanegu'r cyfeiriad yma yn egluro statws y rôl ac yn croesgyfeirio at y diffiniad perthnasol
Tudalen 11 – newid gair	Yn y pwynt bwled cyntaf, newid y gair cydraddoldeb i ecwiti.
Tudalen 11 – Newid geiriau	Yn yr adran hon, cyfeirir at y Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Blynnyddol. Er mwyn sicrhau cysondeb, argymhellir newid Cynllun Corfforaethol i Gynllun Strategol treigl tair blynedd.
Tudalen 14 – atalnod ar goll	Ychwanegu coma ar ôl y gair ecwiti.
Tudalen 14 – 5.2 - rydym yn rhagori ar y darpariaethau hyn, gan ein bod yn nodi y byddwn yn darparu papurau	Fodd bynnag, rydym yn cyhoeddi'r rhain yn rhagweithiol ar ein tudalennau gwe o leiaf dri diwrnod gwaith ymlaen llaw. Mae hyn

cyfarfodydd y Bwrdd i aelodau'r cyhoedd ar gais.	yn dangos ein hymrwymiad i dryloywder ac i fod yn agored. Fodd bynnag, argymhellir cadw'r ddarpariaeth fel y mae ar hyn o bryd.
Tudalen 14 – 6.1 - Mae'r ddarpariaeth hon yn caniatáu i'r Prif Weithredwr enwebu rhywun i weithredu fel ei ddirprwy mewn cyfarfodydd y Bwrdd pan fydd yn absennol, a rhoi hawliau pleidleisio i'r unigolyn hwnnw.	Dylid cadw'r ddarpariaeth hon, ond mae gennym bellach fwy o sicrwydd ac eglurder drwy gynnwys rôl ddynodedig y Dirprwy Brif Weithredwr yn ein strwythur sefydliadol. Argymhellir nodi hyn yn benodol ac ychwanegu diffiniad o rôl y Dirprwy Brif Weithredwr yn yr adran ddiffiniadau ar ddechrau'r ddogfen.
Tudalen 15 – adran 6.3 - bylchau rhwng llinellau	Mae angen cywiro problem gyda'r bylchau rhwng llinellau.
Tudalen 15 – adran 6.5 - Dirprwy Gadeirydd	Argymhellir ychwanegu cyfeiriad penodol at rôl y Dirprwy Gadeirydd yn yr adran hon, gan mai dim ond at y Cadeirydd a'r unigolyn sy'n cymryd lle'r Cadeirydd y cyfeirir ar hyn o bryd.
Tudalen 16 – adran 6.14	Mae angen ychwanegu rôl ddynodedig y Dirprwy Brif Weithredwr yn ffurfiol.
Tudalen 18 – Adran 8.4 – Mae angen ychwanegu cyfeiriad at enw llawn newydd y Pwyllgor Gweithlu, Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth.	Argymhellir ychwanegu'r cyfeiriad hwn.
Tudalen 20 – llofnodi dogfennau	Argymhellir cynnwys rôl y Dirprwy Brif Weithredwr yn ffurfiol yma, yn hytrach na dibynnu ar enwebiad gan y Prif Weithredwr. Bydd angen diwygio hyn yn y cynllun dirprwyo.
Tudalen 21 – adran 9.6 – mae angen newid enw'r pwyllgor i'r Pwyllgor Gweithlu, Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth	Argymhellir gwneud y newid hwn.
Tudalen 22 – Adran 11. Teitl yr adran hon yw Uwch Dîm Rheoli	Cynigir newid teitl yr adran hon i'r Tîm Gweithredol. Argymhellir hefyd gyfeirio at y tîm arweinyddiaeth uwch ehangach, sef

	Tîm Arwain, yng nghorff y testun, ac egluro ei rôl a'i aelodaeth.
Tudalen 25 – Bydd cofrestr datganiad o fuddiant aelodau'r Bwrdd yn cael ei dosbarthu fel rhan o'r pecyn o bapurau ar gyfer pob cyfarfod o'r Bwrdd. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd rheolaidd bod datganiad o fuddiant aelodau'r Bwrdd yn gyfredol ac yn gywir.	Cynigir gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y dylid newid y trefniant hwn i adolygiad ddwywaith y flwyddyn gan y Bwrdd, yn dilyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Cynhelir yr adolygiadau hyn ym mis Medi a mis Mawrth. Bydd yr arfer presennol datganiad o fuddiant mewn amser real ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd yn parhau.
Tudalen 26 – colli papurau neu ddyfeisiau	Ar hyn o bryd, mae'n yn nodi y dylai aelodau'r Bwrdd ddweud wrth y Prif Weithredwr a'r Swyddog Diogelu Data. Argymhellir newid hyn fel bod aelodau'r Bwrdd yn dweud wrth y Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd y Bwrdd, a fydd wedyn yn hysbysu'r Swyddog Diogelu Data (DPO).
Tudalen 28 - adran 17.2	Newid Tîm Noddi Llywodraeth Cymru i Dîm Partneriaeth Llywodraeth Cymru.
Tudalen 30 – adran 20.2	Argymhellir ychwanegu cyfeiriad at sefydlu'r Pwyllgor Gweithlu, Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth yn yr adran hon, sy'n cyfeirio at bwyllgorau Llais.
Tudalen 30 20.3 - mae yna ddarpariaeth lle dylai'r aelodau anweithredol, gan gynnwys y Cadeirydd, yn cyfarfod yn breifat o leiaf unwaith y flwyddyn heb bresenoldeb aelodau gweithredol.	Nid yw hyn yn digwydd ar hyn o bryd, gan fod y Cadeirydd wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r cyfle hwn. Fodd bynnag, gellir defnyddio'r ddarpariaeth hon os bydd angen. Argymhellir newid y ddarpariaeth i ddefnyddio'r gair "gall" yn hytrach na "dylai", gan bwysleisio ei bod yn arfer da cynnal cyfarfodydd o'r fath.
Tudalen 31 – adran 22 - mae'r adran hon yn ymwneud â rôl Ysgrifennydd y Bwrdd	Fel y nodwyd uchod, argymhellir egluro unwaith fod rôl Ysgrifennydd y Bwrdd yn Llais yn cael ei adnabod fel y Cyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu ac

Ysgrifennydd y Bwrdd, yn hytrach na newid y teitl ym mhob rhan o'r ddogfen.

Casgliad

Mae'r adolygiad wedi nodi ychydig o newidiadau i strwythur y sefydliad a threfniadau'r pwyllgorau, diweddaru teitlau swyddi a diweddaru terminoleg. Ni nodwyd unrhyw faterion sylfaenol ynghylch y Rheolau Sefydlog, ac mae'r adolygiad yn rhoi sicrwydd eu bod yn parhau'n addas at y diben, yn amodol ar ymgorffori'r diwygiadau arfaethedig.

Ni ddarparwyd fersiwn lawn o'r ddogfen ddiwygiedig, gan fod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi craffu arni ar ran y Bwrdd. Unwaith y bydd y diweddariadau a'r diwygiadau wedi'u cytuno. Caiff y set newydd o Reolau Sefydlog ei chadarnhau a'i dosbarthu i aelodau'r Bwrdd ac uwch staff, a'i chyhoeddi ar wefan ac ar fewnrwyd Llais.

Argymhelliad / Recommendation

Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r adolygiad a gynhaliwyd o Reolau Sefydlog Llais a chymeradwyo'r diweddariadau a'r newidiadau arfaethedig, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.